

Cyflwyniad

- 1.1 Dyma ddatganiad olaf trydydd adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Cyhoeddwyd yr adolygiad cyntaf yn 2005 ac roedd yn nodi sialensiau ac ymatebion posibl symud o ddarlledu analog i ddarlledu digidol. Cyhoeddwyd yr ail adolygiad yn 2009 ac roedd yn mynd i'r afael â'r pryderon a oedd yn codi o newid o ddarlledu analog i ddarlledu digidol a'r gostyngiad mewn refeniw hysbysebu ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a oedd yn deillio o'r arafu macro economaidd. Mae'r trydydd adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n codi o'r cynnydd mewn defnyddio'r rhyngwrdd a'r newidiadau rydyn ni'n eu gweld o ganlyniad i hynny mewn arloesedd technoleg, darpariaeth cyfryngau ac ymddygiad cynulleidfaoedd.
- 1.2 Diben cynnal yr adolygiadau hyn o bryd i'w gilydd ydy rhoi sylw i berfformiad y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus dan y telerau sydd wedi cael eu gosod i ni gan y Senedd. Ein swyddogaeth ni ydy adolygu a gyflawnir nodau a dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel y nodir mewn deddfwriaeth ac ystyried dewisiadau i gynnal ac i gryfhau'r system. Nid ydym yn rhoi safbwynt ynghylch rhinweddau perthnasol system darlledu gwasanaeth cyhoeddus na'r angen am system o'r fath fel y cyfryw; mater i'r Senedd ydy hyn yn y pen draw. Yn ei hanfod, bwriad y Senedd ydy rhoi cyfle rheolaidd i gamu yn ôl ac ystyried sut mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei chyfanrwydd yn gweithredu, a ydyw'n diwallu'r disgwyliadau mae'r Senedd wedi'u gosod iddi ac a oes angen ei chryfhau. Dyna amcan y ddogfen hon.
- 1.3 Yn gefndir i'r ddogfen hon ydy'r twf yn y rhyngwrdd. Er bod teledu byw yn dal yn eithriadol o bwysig, mae teledu dal i fyny, sy'n cael ei wyllo dros y rhyngwrdd a rhaglenni a chynnwys sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf dros y rhyngwrdd yn dod yn bwysicach i gynulleidfaoedd, yn enwedig cynulleidfaoedd iau. Heddiw, dim ond 50% o bobl 16-24 oed a 61% o bobl 25-34 oed sy'n gwyllo'r teledu'n fyw¹ (hy gwyllo rhaglen deledu ar yr adeg mae'n cael ei darlledu). Mae faint mae pobl ifanc 16-34 oed yn gwyllo newyddion ar y teledu wedi disgyn 29% dros y cyfnod 2008 i 2014, i 39 munud y pen yr wythnos². Mae dyfodiad cystadleuwyr newydd fel Netflix ac Amazon Prime, sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol dros y rhyngwrdd, yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr ac yn gwneud y dirwedd yn fwy cystadleuol.
- 1.4 Mae'r Senedd yn diffinio mai dibenion cyffredinol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ydy darparu rhaglenni teledu sy'n delio ag ystod eang o bynciau, sydd o ansawdd uchel ac sy'n darparu ar gyfer cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol â phosibl. Nod y ddeddfwriaeth ydy sicrhau bod cynnwys yn cael ei ddarlledu sydd er budd y cyhoedd, yn hytrach na dim ond at ddibenion masnachol yn unig. Yn y bôn nid yw cenhadaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi newid ers yr hyn a nodwyd yng nghenhadaeth wreiddiol Reithian ar gyfer y BBC sef "darparu gwybodaeth, addysg ac adloniant" Yn hollbwysig, dylai cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael yn gyffredinol i bob dinesydd.
- 1.5 Ar hyn o bryd mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu ar draws y DU gan nifer o sefydliadau allweddol, y BBC, Corfforaeth Channel 4 (C4C), y rheini sy'n dal y trwyddedau Sianel 3 – ITV ccc, STV ac UTV – a Channel 5. Mae S4C a BBC Alba yn darparu sianeli Cymraeg a Gaeleg. Mae holl wasanaethau'r BBC yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dim ond prif sianeli'r lleill sydd yn rhai darlledu

¹ Data 2014, Digital Day

² Ffynhonnell: BARB

gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae'r sefydliadau hyn yn cael manteision penodol, mynediad i sbectrwm yn bennaf (y tonnau awyr gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau ac amlygrwydd ar y canllawiau rhaglenni electronig ar deledu; ac, yn achos y BBC, Ffi'r Drwydded.

- 1.6 Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i roi nifer o fanteision sylweddol i gymdeithas mewn sawl ffordd. Mae'n sicrhau amrywiaeth yn y cyfryngau, lluosogrwydd mewn newyddion ac mae'n creu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn archwilio cymdeithas yn ehangach. Mae hefyd yn chwarae rhan economaidd bwysig drwy gefnogi'r diwydiannau creadigol ehangach, yn enwedig y sector cynhyrchu annibynnol. Mae'r nifer sy'n gwyllo gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn uchel. Er gwaethaf y twf parhaus yn yr ystod o sianeli a gwasanaethau rhyngwyd sydd ar gael, mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am dros hanner yr holl wyllo teledu. Wrth ystyried eu sianeli portffolio eraill, mae cyfanswm cyfran eu gwyllo yn 72% yn 2014; o ganlyniad mae'r sefydliadau hyn yn dal yn rym pwerus mewn cymdeithas. Mae'r darlledwyr masnachol heb gylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu mwy o gynnwys sy'n diwallu amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan greu mwy o ddewis i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae graddfa eu buddsoddiad yn dal yn fach wrth gymharu â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
- 1.7 Man cychwyn yr adolygiad ydy anghenion cynulleidfaoedd, yn ddefnyddwyr ac, yn fwy cyffredinol, yn aelodau o gymdeithas neu yn ddinasyddion. Rydyn ni wedi cynnal llawer iawn o ymchwil gyda chynulleidfaoedd er mwyn deall eu safbwyntiau. Mae'r ymchwil hwn yn dangos bod cefnogaeth gref yn dal i fodoli ar gyfer dibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- 1.8 Mae rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael ar alwad hefyd wrth gwrs, yn ogystal ag ar deledu byw, mae BBC iPlayer ac All4 Channel 4³, yn benodol, yn chwarae rhan bwysig o ran ymestyn cyrhaeddiad rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, mae newidiadau mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfaoedd yn peri sialensiau newydd ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- 1.9 Mae'r datganiad hwn yn ganlyniad i ymgynghoriad a dadansoddiad dros gyfnod o 12 mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw rydyn ni wedi cael oddeutu 70 o ymatebion, rydyn ni wedi cynnal nifer fawr o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r diwydiant ac rydyn ni wedi cynnal a chomisiynu dadansoddiad ar draws yr ystod o faterion sy'n berthnasol i'r datganiad hwn. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yma:
<http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/psb-review-3/summary/PSBR-3.pdf>

³ Mae All4 yn darparu cynnwys y gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus craidd, Channel 4, y sianeli portffolio a rhywfaint o gynnwys sydd wedi cael ei gomisiynu i'w ddarlledu'n benodol ar-lein.

Crynodeb a chasgliadau'r Adolygiad hwn

Darparu'r system ar hyn o bryd

- 2.1 **Hyd yma mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn gweithio'n gyffredinol i gyflawni'r canlyniadau y mae'r Senedd wedi deddfu ar eu cyfer.** Heb gynnwys chwaraeon, roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwario ychydig dros £2 biliwn⁴ ar gynnwys newydd yn y DU yn 2013, o'i gymharu â buddsoddiad cyfatebol y sector aml-sianel⁵ a oedd oddeutu £350m. Mae'r BBC yn dal yn gonglfaen y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r BBC ydy'r prif fuddsoddw'r ar draws y system. Mae ein ffigurau diweddar, sef cyfanswm gwariant (gan gynnwys chwaraeon), yn dangos bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwario £2.5 biliwn yn 2014 ar gynnwys gwreiddiol newydd yn y DU, gyda'r BBC yn cyfrif am ychydig dros hanner hyn (£1.27 biliwn). Mae ITV, Channel 4 a Channel 5 yn cyfrannu'r gweddill (£1.25 biliwn).
- 2.2 **Rhwng 2008 a 2014 roedd cyfanswm lefelau'r buddsoddiad mewn cynnwys newydd yn y DU gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi disgyn dros £400m mewn termau real.** Mae darlledwyr wedi mynd i'r afael â hyn drwy leihau costau gwneud rhaglenni a newid y mathau o raglenni maen nhw'n eu gwneud. Efallai y bydd hi'n anodd ailadrodd y camau hyn yn y dyfodol a allai arwain at benderfyniadau rhaglennu anodd os bydd cyllid yn dal i fod yn gyfyngedig. Mae'r gostyngiad hwn mewn buddsoddiad yn digwydd yng nghyd-destun rhannu cynulleidfaoedd drwy newid i'r digidol a'r angen i ddatblygu gwasanaethau newydd a strategaethau dosbarthu i ddiwallu newidiadau yn chwaeth ac arferion defnyddio cynulleidfaoedd.
- 2.3 **Mae bodlonrwydd cynulleidfaoedd wedi cynyddu ac wedi aros yn uchel dros yr un cyfnod.** Mae ein harolwg blynyddol yn dangos bod y pwysigrwydd mae defnyddwyr a dinasyddion yn ei roi ar nifer o ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus (ee newyddion dibynadwy, dramâu ac operâu sebon o ansawdd uchel, newyddion y Gwledydd a'r rhanbarthau a phortreadu a dangos gwahanol fathau o ddiwylliannau yn y DU) i gyd wedi cynyddu rhwng 2008 a 2014. Mae bodlonrwydd gyda cyflawni'r dibenion a'r nodweddion hyn yn gyffredinol wedi codi o 69% o'r ymatebwyr yn 2008 i 79% yn fodlon yn 2014. Mae'r teimlad o fodlonrwydd yn cael ei atgyfnerthu gan y lefelau uchel parhaus sy'n gwylio sianeli a gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- 2.4 **Mae rhai materion sy'n codi o'n Hadolygiad y mae angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith:** defnyddio newyddion a darparu newyddion ar gyfer pobl ifanc, drama sy'n adlewyrchu ac yn portreadu cymdeithas Brydeinig yn ôl i gynulleidfa Brydeinig, cynnwys sydd wedi cael ei deilwra yn ôl anghenion penodol y Gwledydd a rhanbarthau Lloegr, rhaglenni crefyddol, rhaglenni i blant a buddsoddi mewn meysydd eraill fel cerddoriaeth a'r celfyddydau. Mae pryderon amlwg hefyd yn dod i'r fei ynghylch bodlonrwydd pobl hyn â'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chwestiynau ynghylch i ba raddau mae pobl ifanc yn gwahaniaethu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus oddi wrth gynnwys arall.

⁴ Mae'r holl ffigurau yn y paragraff hwn wedi cael eu haddasu i brisiau 2014.

⁵ Mae'r data ar y sector aml-sianel yn yr adolygiad hwn wedi cael ei gasglu gan y prif ddarparwyr aml-sianel yn y DU, sef cwmnïau fel Sky, Discovery, Fox, NBC Universal, Turner, Sony a Discovery. Mae'r data hwn hefyd yn cynnwys sianeli portffolio'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel More 4, ITV2 ac ati. Nid oedd yn rhaid i ddarlledwyr llai ddarparu data am resymau sy'n ymwneud â chymesuredd.

- 2.5 **Newyddion ydy'r genre darlledu gwasanaeth cyhoeddus pwysicaf i gynulleidfaedd o hyd.** Mae'r nifer o oedolion sy'n gwylio rhaglenni newyddion cenedlaethol a rhyngwladol ar y teledu yn dal yn weddol sefydlog. At ei gilydd, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am 95% o'r rhaglenni teledu newyddion sy'n cael eu gwylio, gyda darparwyr aml-sianel fel Sky a CNN yn sicrhau bod ystod eang o raglenni newyddion yn dal ar gael. Mae'n dod yn fwy cyffredin i bobl gael eu newyddion ar y rhyngwyrdd. Yn 2014, roedd 44% o oedolion yn defnyddio'r rhyngwyrdd i gael newyddion, a oedd wedi codi o 16% yn 2007. Mae'r newid mwyaf yn ymwneud â phobl ifanc: mae nifer yr oriau mae pobl ifanc yn ei dreulio yn gwylio newyddion ar y teledu wedi disgyn 29% ers 2008 gyda bron i hanner nawr yn dweud mai'r rhyngwyrdd ydy eu ffynhonnell bwysicaf o newyddion am y DU.
- 2.6 **Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i ddarparu dramâu proffil uchel gyda chyllidebau mawr.** Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio gostyngiadau sylweddol yng ngwariant y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni gwreiddiol, sydd wedi disgyn 44% ers 2008. Mae newid yr amser caiff un rhan o bump o ddramâu'r DU eu gwylio yn gallu ei gwneud hi'n anoddach yn fasnachol, sydd mewn rhai achosion yn golygu bod marchnadoedd rhyngwladol yn dod yn ystyriaeth fasnachol bwysicach. Er bod bodlonrwydd cynulleidfaedd gyda dramâu yn sefydlog, mae'r gostyngiadau yn lefelau'r buddsoddiad, yn enwedig ar ITV, yn peri pryder.
- 2.7 **Bach iawn ydy'r ddarpariaeth mewn rhai genres:** ar ôl diddymu rhai cwtâu penodol yn 2003, mae darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol, crefydd a moeseg ac addysg ffurfiol wedi disgyn yn sylweddol. O ran rhaglenni plant, prin iawn ydy'r rhaglenni heb fod yn rhaglenni animeiddio y tu allan i'r BBC.
- 2.8 **Y Gwledydd a'u rhanbarthau** ydy'r meysydd lle gwelir y diffyg cyfatebiaeth mwyaf rhwng disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sut mae'n cyflawni mewn gwirionedd. Er enghraifft, mae lluosogrwydd yn dal i beri pryder yng Nghymru. Gogledd Iwerddon sydd wedi elwa lleiaf o'r cynnydd mewn cynrychiadau rhaglenni rhwydwaith ar draws gwledydd y DU ers 2008 ac yn yr Alban mae pobl wedi codi pryderon gyda ni ynghylch cynaliadwyedd y sector cynhyrchu. Bu gostyngiadau mewn gwylio hefyd: er enghraifft, mae faint y mae pob person yn gwylio'r newyddion ar gyfer y Gwledydd a'u rhanbarthau wedi disgyn dros 4 awr ers 2008. Wrth ystyried pwysigrwydd y materion hyn a'r rhaglen barhaus o ddatganioli yn y DU rydyn ni'n cyhoeddi dogfen ar wahân ochr yn ochr â'r datganiad hwn i ystyried y materion penodol ar draws y Gwledydd a'u rhanbarthau.
- 2.9 **Mae nifer o grwpiau cynulleidfa yn dal i boeni am sut maen nhw'n cael eu portreadu,** ac mae'n rhaid i ddarlledwyr barhau i ymchwilio i'r pryderon hyn, eu deall a mynd i'r afael â nhw. Yn benodol, o'r rheini a gymerodd ran yn ein hymchwil, roedd dros hanner y rheini o'r gymuned ddu yn teimlo nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ac roedd tua hanner y bobl anabl yn teimlo nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.

Newidiadau mewn arferion gwylio a'r posibilrwydd y bydd y patrymau sy'n dod i'r amlwg yn cyflymu

- 2.10 **Mae'n bosibl y bydd y sialensiau presennol i gyllido cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dod yn fwy amlwg os bydd y ddeinameg rydyn ni'n ei gweld yn y farchnad yn cyflymu:** er bod faint mae pobl yn defnyddio'r teledu yn dal yn uchel yn gyffredinol, er gwaethaf gostyngiad dros y ddwy flynedd diwethaf,

efallai fod ymddygiad pobl ifanc yn arwydd cynnar o newid mwy sylweddol ar draws y grwpiau oed i wyllo ar alwad ac ar-lein. Mae'r newidiadau cyffredinol rydyn ni'n eu gweld mewn technoleg a rhyngwynebau defnyddwyr yn effeithio ar sut mae pobl yn canfod ac yn cael gafael ar gynnwys a pha gynnwys maen nhw'n dewis ei wyllo.

- 2.11 **Mae sefyllfaoedd lle mae'r patrwm sy'n esblygu i wyllo cynnwys ar-lein yn digwydd yn gynt.** Os bydd y tuedd i wyllo ar-lein ac ar alwad yn cyflymu a byddwn yn gweld newid cyflymach yn ymddygiad cynulleidfaoedd dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debyg y bydd y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol yn ei chael hi'n anodd cyflawni bwriadau'r Senedd. Mewn sefyllfaoedd lle mae pethau'n symud yn gynt, mae'n bosibl na fydd yr ymyriadau presennol o gael mynediad i sbectrwm ac amlygrwydd ar ganllawiau rhaglenni electronig, sydd wedi cael eu dylunio i gefnogi mynediad hawdd at gynnwys gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael yn gyffredinol, yn effeithiol mwyach.
- 2.12 **Bydd yn rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael rhyddid i fwrw ymlaen i arloesi,** gan fod cynulleidfaoedd yn fwy ac yn fwy awyddus i gael cynnwys sy'n cael ei ddarparu ar draws nifer o ddyfeisiau ac sydd wedi cael eu dylunio'n benodol ar gyfer yr amgylchedd rhyngwyd. Mae'n debygol y bydd ar gynulleidfaoedd eisiau mwy na dim ond cynnwys teledu traddodiadol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac i'r perwyl hwnnw gallai fideos byr neu gynnwys sy'n cael ei ddangos ar-lein am y tro gyntaf fod yn ffordd effeithiol o gyflawni dibenion allweddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- 2.13 **Bydd twf y rhyngwyd yn dal i roi cyfleoedd i'r sector masnachol a'r sector cyhoeddus ehangach i ddarparu mwy o gynnwys sy'n debyg i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Mae nifer o enghreifftiau o hyn yn barod, o gwmnïau fel Vice Meda yn darparu cynnwys newyddion i bobl iau, a darparu cynnwys a newyddion lleol ar wefannau lleol iawn, i brifysgolion mawr yn rhoi eu darlithoedd ar-lein.

Materion i'w hystyried sy'n deillio o'r Adolygiad hwn

- 2.14 **Mae mwy o gysylltedd yn cynnig cyfleoedd cyffrous i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wella eu darpariaeth a'u hymgylltiad â chynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd ac arloesol.** Mae cryfder brandiau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys eu sianeli portffolio, ynghyd â'u cyrhaeddiad a'u heffaith mewn teledu llinol, yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd a geir drwy'r rhyngwyd i ddarparu canlyniadau gwasanaeth cyhoeddus mewn ffyrdd newydd, gwahanol a chyffrous.
- 2.15 **Mae'r cyfuniad o'r materion sydd wedi'u nodi yn yr adolygiad hwn a'r patrymau sy'n datblygu rydyn ni wedi'u nodi yn awgrymu y bydd angen i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus addasu ymhellach i'r amgylchedd sy'n newid.** Os ydy darlledwyr am barhau i ddarparu lefelau uchel o gyllid ar gyfer cynnwys a gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, bydd angen iddyn nhw barhau i addasu eu modelau i gynyddu'r referniw masnachol⁶ a'r arbedion effeithlonrwydd.
- 2.16 **Wrth i'r tuedd at ar-lein ac ar alwad gyflymu, mae'n debygol y bydd sialensiau cyllido yn tyfu.** Wrth ystyried nodau'r Senedd, pwysigrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd a swyddogaeth y system o ran cefnogi'r sector creadigol ehangach, mae cwestiynau'n dod i'r fei ynghylch a fydd yr ymyriadau

⁶ Rydyn ni'n nodi y bydd angen ystyried y cwestiynau ynghylch y BBC yn cynyddu ei referniw masnachol yng nghyd-destun effaith unrhyw gynigion o'r fath ar y farchnad.

presennol yn dal i fod yn ddigon. Mae perygl os na fydd darlledwyr yn gallu addasu eu modelau i gynyddu'r refeniw masnachol a'r arbedion effeithlonrwydd ddigon, y bydd yn rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau sy'n mynd yn gynyddol anodd ynghylch pa wasanaethau a chynnwys gwasanaeth cyhoeddus i'w cyllido. Efallai y bydd penderfyniadau i gynyddu'r cyllid mewn un maes yn arwain at ostyngiadau yn y cyllid ar gyfer meysydd eraill.

- 2.17 **Bydd penderfynu ar rôl y BBC, drwy'r broses Adolygu'r Siarter sydd ar y gweill yn hollbwysig**, oherwydd gallai newidiadau mawr i gwmpas neu i natur allbwn y BBC olygu effaith fawr ar ddarparu'r canlyniadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi cael eu gosod gan y Senedd. Fodd bynnag, yn ystod yr adolygiad hwn nid ydym wedi cynnal dadansoddiad manwl o allu'r BBC i wireddu rhagor o arbedion effeithlonrwydd, cynyddu ei refeniw masnachol nac ailffocysu ei weithgarwch i ddarparu rhagor o werth am arian. Mae hynny'n fater i'r Adolygiad o'r Siarter.
- 2.18 **Dylid ystyried diweddarau'r fframwaith mae Corfforaeth Channel 4 yn gweithredu oddi tanodd** i sicrhau ei bod yn gallu diwallu anghenion cynulleidfaoedd iau, y mae eu harferion defnyddio cyfryngau yn newid yn gyflym. Gallai hyn gynnwys caniatáu iddi ddarparu rhai o'i rhwymedigaethau sydd ynghlwm wrth ei gwasanaeth Channel 4 craidd ar draws yr ystod o'i gwasanaethau, a gwarantu bod ei sianeli a'i gwasanaethau'n cael amlygrwydd priodol ar y rhyngwynebau defnyddwyr mwyaf poblogaidd.
- 2.19 **Dylai llunwyr polisïau roi rhagor o ystyriaeth i ddiwygio'r rheolau sy'n gwarantu amlygrwydd priodol a mynediad at gynnwys gwasanaeth cyhoeddus.** Cafodd y rheolau presennol ar amlygrwydd yn yr amserlen ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu dylunio ar gyfer oes o ddarlledu analog. Mae angen diwygio'r rhain i gyfateb i'r newidiadau mewn technoleg ac i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn hawdd dod o hyd iddo, sut bynnag bydd yn cael ei wyllo. Bydd angen i newid o'r fath gael ei ystyried yng nghyd-destun llwyfannau newydd a llwyfannau sy'n dod i'r fei sy'n cael eu darparu dros y rhyngwyd a newidiadau i rhyngwynebau defnyddwyr, a fyddai'n gallu newid sut mae pob yn cael gafael ar gynnwys a gwasanaethau.
- 2.20 **Gallai diwygio rheoleiddio, a fyddai'n gallu effeithio ar lif cronfeydd rhwng llwyfannau a darlledwyr (y ddadl ynghylch yr hyn a elwir yn 'ffioedd ailddarlledu'), ddarparu cyllid ychwanegol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol**, ond gallai ofyn am benderfyniadau rheoleiddio ôl-stop hir a chymhleth i benderfynu ar anghydfodau masnachol. Hyd yn oed petai anghydfodau o'r fath yn cael eu datrys, ar hyn o bryd nid oes dim gwarant y byddai'r arian yn cael ei wario ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus.
- 2.21 **Gallai cyfuno yn y sector cynhyrchu annibynnol arwain at fanteision yn ogystal â risgiau**; efallai y bydd buddsoddwyr tramor yn fodlon rhoi lefelau uwch o gyfalaf risg i ariannu comisiynau gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nag a wneir ar hyn o bryd. Yn yr un modd, gallai cyfuno beryglu rhai sy'n newydd i'r farchnad a busnesau bach a chanolig sydd wedi bod yn asgwrn cefn sector cynhyrchu teledu'r DU dros y degawd diwethaf. Mae hi'n rhy gynnar asesu effaith lawn cyfuno'r farchnad a byddwn yn dal i adolygu'r maes hwn yn ofalus.
- 2.22 **Yn olaf, ar hyn o bryd mae hi'n anodd rhagweld effaith lawn y chwaraewyr rhyngwladol newydd a'r llwyfannau newydd sy'n ymuno â marchnad y DU.** Mae sectorau creadigol y DU a'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithredu yn hynny yn gweithio mewn cyd-destun sy'n dod yn fwy rhyngwladol. Ar hyn o bryd nid yw'n glir beth fydd effaith lawn gweld cwmnïau rhyngwladol yn prynu darlledwyr a

chwmnïau cynhyrchu yn y DU, gan gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio cynnwys yn fyd-eang ac, yn benodol, effaith chwaraewyr ar-lein newydd. Mae'r farchnad yn esblygu'n gyflym a bydd angen ei monitro'n ofalus, wrth ystyried y risgiau posibl i lwyddiant y system a sector cynhyrchu'r DU.